



THE CONVERSATION

Sara Louise Wheeler o Brifysgol Bangor: Blwyddyn wych o ran ieithoedd arwyddion mewn ffilm / A great year for signed languages in film

Published on 06/04/2018 — in Anffurfiol/Erthyglau

O ystyried y ffilmiau wedi'u rhyddhau yn ystod 2017, a'r rhai wedi'u hanrhydeddu yn y seremoni Oscars, go arbennig yw sylwi mor amlwg mae ieithoedd arwyddion wedi bod. Tair ffilm yn enwedig sy'n amlwg gan eu bod nhw'n portreadu ieithoedd arwyddion fel ieithoedd go iawn, sef: *Baby Driver*, *The Shape of Water* a *The Silent Child*. Mae Sara, darlithydd mewn Polisi Cymdeithasol, yn esbonio mwy...

Looking back at the films released in 2017, and those honoured at the Oscars, it is quite remarkable to note the prominence of signed languages. Three films in particular stand out for their sensitive portrayals of signed languages as bona fide languages: *Baby Driver*, *The Shape of Water* and *The Silent Child*. Sara, a lecturer in Social Policy, explains more...

Ymddangosodd y fersiwn Saesneg o'r erthygl hon yn wreiddiol yn [The Conversation](#), gyda chyfres o erthyglau sydd yn [cynnwys Cymru yma](#).

The English version of this article originally appeared in [The Conversation](#), with a series of articles that [feature Wales here](#).

Mae dwy o'r tair ffilm hyn, *Baby Driver* a *The Silent Child*, hefyd yn cyfrannu'n bwysig – ar y sgrin ac yn y byd go iawn – at gydnabod a pharchu diwylliant, hunaniaeth, a chymuned Fyddar; yn y ddwy ffilm, actorion Byddar sy'n chwarae cymeriadau sydd yn dangos pa mor bwysig yw iaith arwyddion yn eu bywydau pob dydd.

Two of these three films, *Baby Driver* and *The Silent Child*, also make an important contribution – both onscreen and off – towards recognising and respecting Deaf culture, identity, and community; they both have Deaf actors playing characters that demonstrate the importance of signed languages in their everyday lives.

Baby Driver

Derbyniodd y ffilm hon [ddau o'i thri](#) enwebiad yn yr Academy Awards ym 2018 o ran golygu a chymysgu sain. Mae'n cynnwys portread hyfryd o iaith arwyddion America (ASL) a sut mae'n cael ei defnyddio mewn bywyd pob dydd. Mae'r prif gymeriad *Baby/Miles* yn trafod pethau â'i dadmaeth Byddar Joseph megis perthnasau, a chysylltiad *Baby* â gweithgareddau troseddol, yn ogystal â rhywbeth tipyn yn fwy cyffredin, sut i wneud cinio at ddant Joseph.

Baby Driver

Baby Driver – which had [two of its three](#) 2018 Academy Award nominations for sound editing and mixing – contains a beautiful portrayal of American Sign Language (ASL) and its role in everyday life. Central character *Baby/Miles* and his Deaf foster father Joseph, discuss relationships, *Baby's* involvement in criminal activity, and the slightly more mundane topic of preparing dinner to Joseph's liking.

Carreg filltir o ffilm yw *Baby Driver* hefyd, gan mai Byddar yw'r actor CJ Jones sy'n chwarae rhan Joseph, ac ASL yw ei famiaith. Yn aml mae stiwdios [yn dewis actorion sy'n gallu clywed mewn rhannau Byddar](#). Fodd bynnag, fe ddywedodd yr ysgrifennwr a chyfarwyddwr o'r enw Edgar Wright, mai "[anodd](#)" oedd gwylio actorion sy'n gallu clywed yn cogio bod yn Fyddar, ar ôl iddo roi clyweliad i Jones. Pwynt diddorol yw hwn o ran adfeddiad diwyllianol o hunaniaeth Fyddar, ac mae ymgyrchu wedi bod amdano, er enghraifft, trwy ddefnyddio'r hash-nod [#DeafTalent](#). Yn y cyfamser, dysgodd Ansel Elgort, oedd yn chwarae rhan *Baby/Miles*, ASL, er mwyn "[gwneud chwarae teg â hi](#)."

Baby Driver is also a landmark film because actor CJ Jones, who plays the role of Joseph, is Deaf and native to ASL. Studios often [cast hearing actors in Deaf roles](#), but writer and director Edgar Wright stated that, having auditioned Jones, he found watching hearing actors pretend to be Deaf "[difficult](#)". This is an interesting point in terms of cultural appropriation of Deaf identity and has been the subject of campaigning, including [#DeafTalent](#). Meanwhile, Ansel Elgort, who played *Baby/Miles*, undertook lessons in ASL in order to "[do it justice](#)".

The Shape of Water

Enillodd y ffilm hon [bedwar o'r Academy Awards ym 2018](#), gan gynnwys ffilm orau. Mae'n chwedl dirweddath hudol, sy'n dilyn gofalydd mewn labordy llywodraeth tra mae hi'n cwmpo mewn cariad ag amffibiad dynollfurf, [sy'n cael ei ddal yn gaeth yno](#). Dyw'r prif gymeriad *Elisa Esposito* (*Sally Hawkins* sy'n chwarae'r rhan hon) ddim yn fyddar, ond eto i gyd, dyw hi ddim yn gallu lleisio. Felly mae *Elisa'n* cyfathrebu, trwy ddefnyddio ASL yn unig, â'i chydweithiwr *Zelda Delilah Fuller* (*Octavia Spencer*), â'i chymydog *Giles* (*Richard Jenkins*), ac â'i chariad o amffibiad (*Doug Jones*) nad yw'n gallu lleisio chwaith.

The Shape of Water

The Shape of Water, which took [four of the 2018 Academy Awards](#) including best picture, is a magical realism tale, which follows a janitor at a government laboratory as she falls in love with a humanoid amphibian creature [being held there](#). While protagonist *Elisa Esposito* (played by *Sally Hawkins*) is not deaf, she is unable to verbalise. So *Elisa* communicates exclusively through ASL with her co-worker *Zelda Delilah Fuller* (*Octavia Spencer*), neighbour *Giles* (*Richard Jenkins*), and her amphibian lover (*Doug Jones*) who also cannot verbalise.

Wrth i'r stori ddatblygu, mae *Elisa'n* trafod pethau â'i ffrindiau gan ddefnyddio ASL, a dyna sy'n dangos ei bod hi'n iaith go iawn sy'n nerthol ac yn fywiog. Mae *Elisa'n* dod yn ffrind i'r creadur, ac yn dysgu ASL iddo fe, yn yr un modd y byddai rhywun yn dysgu unrhyw iaith. Mae hi'n crefu ar *Giles* i'w helpu hi i achub y creadur, ac mae'n ei berswadio fe, gan gyfleu dyfnder ei hymlyniad a'i serch. Ar ôl iddi hi gael cyfathrach â'r creadur, mae *Elisa'n* cyfaddef wrth *Zelda* am fanylion preifat y digwyddiad mewn modd cyfoethog a llawn. Ac mae hi'n cyfleu'r cymhlethdod hwn i gyd, trwy gyfrwng ASL.

Through the unfolding love story, and her conversations about it with her friends, the power of ASL as a full and vibrant language is demonstrated. *Elisa* befriends the creature and teaches him ASL, as one would any language. She begs and convinces *Giles* to help her rescue the creature, conveying the depth of her emotional attachment and love. Having copulated with the creature, *Elisa* confides in *Zelda* the intimate and explicit details of the encounter. All of this complexity of everyday life is conveyed through ASL.

Mewn cyfweliad, esboniodd *Hawkins* bethau fel a ganlyn: Roedd iaith arwyddo *Elisa* yn gymysgedd bwriadol o ASL fel byddai pobl wedi'i siarad yn ôl yn y cyfnod, a "[cyfuniad o bethau](#) byddai *Elisa* wedi eu taflu at ei gilydd, o achos ble y byddai hi wedi bod yn debygol o'i dysgu." Dyma ddarluniad da o ran realeath defnyddwyr ieithoedd arwyddion bryd hynny ac hefyd yn nes ymlaen. Trwy'r amser, fe gafodd ieithoedd arwyddion [eu llethu ledled y byd, wrth ffatrio darllen gwefusau a defnyddio'r llais](#)

In an interview, *Hawkins* explained that *Elisa's* signed language was a deliberate mixture of period-specific ASL and an "[amalgamation of things](#) *Elisa* would have cobbled together "because of where she'd probably have learnt it". This is a good representation of the reality of many signers in this period and beyond. Signed languages [were historically suppressed worldwide](#), in favour of lip reading and use of voice.

The Silent Child

Enillodd y ffilm hon y wobwr yn yr Oscars am ffilm fer orau sy'n cynnwys

The Silent Child

The Silent Child, [which was awarded best live action short film](#) at

ffilmio byw. Mae'n cyfleu sut mae plentyn hollol fyddar yn cael ei hynysu a'i gwahanu, wrth fyw mewn teulu sy'n gallu clywed, ac sy'n cymryd yn ganiataol ei bod hi'n "dilyn pethau'n dda iawn". Fodd bynnag, pan ydym ni'n gweld pryd o fwyd gyda'r teulu trwy lygaid Libby, rydym ni'n dechrau casglu nad yw hyn yn gywir o bell ffordd. Mae'r sefyllfa'n gwella pan mae gweithiwr cymdeithasol yn cyrraedd. Mae hi'n dysgu iaith arwyddion Prydain (BSL) i Libby, a dyma sy'n ei galluogi hi i gyfathrebu ac i fynegi ei hunan. Wedi dweud hynny, mae'r ffilm yn dirwyn i ben ar nodyn ansicr ac emosïynol, gan fod rhieni Libby yn penderfynu darfod ei gwersi BSL.

Maisie Sly, actores Fyddar yn chwech oed, sy'n chwarae rhan Libby, prif gymeriad yn y ffilm, ac BSL yw ei mamiaith. Wedi derbyn y wob, rhoddodd Rachel Shenton, a ysgrifennodd y ffilm ac a oedd yn chwarae rhan Joanne, ei haraith derbyn Oscar mewn BSL.

Mae The Silent Child o blaid BSL. Serch hynny mae'n dangos y tensiynau sydd rhwng diwylliant clywedol, a diwylliant Byddar, gan fod llawer o rieni'n gweld BSL fel bygythiad i cyfathrebiad teuluol.

Felly, mae ffilmiau 2017-18 wedi amlygu ieithoedd arwyddion, ac maen nhw wedi cynhyrchu trafodaeth sylweddol. Ond, tra mae agweddau tuag at ieithoedd arwyddion, ac at ddiwylliant Byddar, yn gwella efallai, mae cryn bellter o'n blaenau cyn i ni ddod yn agos at gydraddoldeb o unrhyw ddisgrifiad. Braf yw dysgu, felly, fod y tîm tu ôl i The Silent Child yn cynllunio ffilm hyd llawn i'w dilyn, a'u bod nhw'n ymgyrchu dros ddysgu BSL i blant mewn ysgolion. Gadewch i ni obeithio y bydd pawb yn y gallwn cynnal y momentwm wedi'i greu yn ystod y flwyddyn hon, er mwyn mynd â'r datblygiadau hyn yn bellach.

the Oscars, conveys the isolation and dissociation of a profoundly deaf child, Libby, living with her hearing family, who assume she "follows things really well". However, as we witness a family meal through Libby's eyes, we can begin to appreciate that this is far from being the case. The situation improves with the arrival of a social worker, Joanne, who teaches Libby British Sign Language (BSL), enabling her to communicate and express herself. However, the film ends on an uncertain and emotional note, as Libby's parents decide to cease her BSL sessions.

The film's main character, Libby, is played by six-year-old Deaf actor **Maisie Sly**, a native to BSL. Rachel Shenton, who wrote and starred in the film as Joanne, made her **Oscar acceptance speech in BSL**.

The Silent Child is pro-BSL, while still illustrating the tensions between hearing and Deaf cultures, as BSL is still seen by many parents as a threat to family communication.

So, the films of 2017-18 have placed signed languages centre stage and generated much debate. But while attitudes towards them and Deaf culture may be improving, there is still a long way to go before anything nearing equality is achieved. It is thus gratifying to learn that the team behind The Silent Child are planning a full-length movie follow up, amid campaigning for children to be taught BSL in schools. Let's hope that the momentum from this year can be maintained and built upon.

Baby Driver: CJ Jones "Joseph" On Set Movie Interview



Oscars speech in sign language



Lawrlwythwch yr erthygl fel PDF / Download the article as PDF

Mae Sara ar gael ar Trydar [@serensiwenna](#) ac ar ei gwefan [saralouisewheeler.wordpress.com](#)
Sara is available on Twitter [@serensiwenna](#) and on her website [saralouisewheeler.wordpress.com](#)

LATEST FROM ANFFURFIOL

Ysgol y Cwm, Y Wladfa: Cylchlythyr Mis Mawrth 2018 / Ysgol y Cwm, Patagonia: Newsletter March 2018

Fel rhan o gyfres newydd o eitemau o'r Wladfa, dyma'r newyddion yr

Shelley Hughes: Llywodraeth Cymru yng Ngogledd America / Welsh Government in North America

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal swyddfeydd mewn 16 o leoliadau ledled y

Elizabeth Jane Corbett: 15 ohonom ni yn Melbourne yn helpu cyrraedd at filiwn o siaradwyr / 15 of us in Melbourne are helping to reach a million speakers

Miloedd o bobl dros y byd sy'n dysgu Cymraeg, ac mae straeon

Dani Schlick: Cymraeg ac Almaeneg- Beth sydd gan iaith Gwlad Beirdd a Chantorion yn gyffredin ag iaith Gwlad Beirdd ac Athronwyr? / Welsh and German- What do the language of the Land of Poets and Singers and the language of the Land of Poets and Philosophers have in common?

Dyma'r dechrau o gyfres gyffrous newydd- cymharu Cymraeg i ieithoedd eraill- ond

Jonathan Simcock: Dysgu a defnyddio Cymraeg yn Derby / Learning and using Welsh in Derby

Mae'r Gymraeg yn ffynnu yn ninas Derby yng nghanolbarth Lloegr. Pam mae

